# Sut beth ydy gofal maeth?

## Canllaw i bobl ifanc



Addas i oedran 8+

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Gair ...
## gan bobl ifanc eraill sy'n byw mewn gofal maeth a gofal preswyl

Grŵp o bobl ifanc 8-14 oed ydan ni, ac i gyd yn derbyn gofal. Ni ddaru helpu i sgwennu'r llyfryn hwn i chi.

Pan ddaru ni symud i ofal maeth am y tro cyntaf, roedd arnan ni ofn, roeddan ni'n anhapus, yn drist am adael ein teuluoedd, yn hapus fod pethau'n mynd i wella ac roedd gynnon ni lawer iawn o gwestiynau a phryderon am beth oedd yn mynd i ddigwydd i ni.

Erbyn hyn mae pethau'n well. Rydan ni'n leicio ein gofalwyr maeth a lle'r yden ni'n byw. Mi ddaethon i adnabod eu teulu a'n gweithiwr cymdeithasol. Mae pethau'n oreit.

Gobeithio y bydd y llyfr bach hwn yn help i chi gael gwell bywyd mewn gofal.




# Gadael eich teulu

## Sut deimlad ydy o...



**Hwyrach y byddwch yn teimlo yn:**
- drist am adael eich teulu
- hapus fod pethau'n mynd i wella
- ofnus

**Efo pwy yr ydw i'n mynd i fyw?**
Byddwch yn mynd i fyw efo gofalwr maeth tra bod pobl yn trio gwneud pethau'n well adre.



**Pam ydw i yma?**
- hwyrach nad ydy mam neu dad yn dda
- mae pobl yn trio eu helpu

**Pecyn Croeso**
Bosib na fydd hi'n hawdd setlo i mewn, ond mi rown ni 'becyn croeso PDG' i chi, sef bag cefn sy'n llawn o wybodaeth ddefnyddiol a phethau molchi ac ati.



# Sut rai ydy **gofalwyr maeth?**

**Pobl neis** ydy gofalwyr maeth fydd yn edrych ar eich ôl. Mae gan rai ohonyn nhw blant eraill i chi gael chwarae efo nhw. Mae gan rai anifeiliaid anwes.

**Eich gofalwr maeth ydy...**




Os oes plant eraill yn y tŷ, mi ddylai'r rheolau fod yr un fath i bawb.

Mi fyddan nhw'n gofyn i chi wneud rhai tasgau, fel gwneud eich gwely. Mi fyddan nhw'n dweud pryd mae amser te, amser bod i mewn, amser mynd i'r gwely...



Hwyrach y byddan nhw'n rhoi pres poced i chi. Mi fydd rhai gofalwyr maeth yn rhoi mwy o bres poced i chi am wneud tasgau o gwmpas y tŷ.



# Mi fydd eich **gofalwr maeth** isio gwybod

F'enw ydy

Rydw i'n leicio cael fy ngalw

Bwyd rydw i'n leicio i fwyta (llysieuol?)

Bwyd nad ydw i'n leicio

Mae arna'i ofn

Dillad rydw i'n leicio eu gwisgo



# Beth ydy gweithiwr cymdeithasol?



Gweithiwr cymdeithasol ydy rhywun sydd eisiau eich helpu chi a'r teulu. Maen nhw'n trio gwneud pethau'n well.

**Fy ngweithiwr cymdeithasol ydy**

..............................................................

Rhif ffôn **01352 701000** (dydd)
neu **0845 0533116** (nos, os oes brys)


Os ydych eisiau gweld eich gweithiwr cymdeithasol, medrwch ffonio a gofyn iddo fo neu hi ddŵad i'ch gweld.



**Cwestiynau i'ch gweithiwr cymdeithasol**

Fydda'i yn aros yn f'ysgol?
Pryd ca'i weld fy nheulu?
Fydda'i yn mynd adre toc?

# Pryd bydda'i yn gweld fy nheulu?



Os ydy'ch teulu yn teimlo'n iawn, mi fedrwch fynd i'w gweld. Neu mi fedrwch siarad â nhw ar y ffôn.

Os nad ydych eisiau gweld rhywun, does dim rhaid i chi. Os oes rhywun nad ydych am weld – soniwch wrth eich gweithiwr cymdeithasol.

**Pobl rydw i am eu gweld.... ✔**

**Pobl dwi ddim eisiau eu gweld.... ✕**

# Efo pwy medra'i siarad os oes gen i broblem?



- cael fy mwlio
- colli eich teulu
- ddim yn leicio 'ngofalwr maeth
- teimlo'n isel

**Siaradwch efo'ch gweithiwr cymdeithasol!**
Soniwch wrth eich gweithiwr cymdeithasol os oes gennych broblem

**Dywedwch wrthyn nhw yn eich "adolygiad"**
Byddwch yn mynd i gyfarfod a bydd rhywun yn gofyn i chi a ydych yn hapus am lle'r ydych yn byw ac a ydy pob dim yn iawn. Cofiwch ddeud os nad ydych yn hapus.

Os oes arnoch ofn siarad mewn cyfarfod, mae rhywun fedr siarad drosoch. 'Eiriolwr' ydy'r enw ar y bobl yma. Medrwch eu ffonio ar 0800 616101, e-bostio help@nyas.net neu ofyn i'ch gweithiwr cymdeithasol ac mi wnân nhw gysylltu i chi.



# Beth os ydw i WIR yn anhapus?

Os ydych chi wir yn anhapus, medrwch symud at ofalwr maeth arall. Os nad oes cartref maeth sy'n iawn i chi ar y funud, hwyrach y bydd yn rhaid i chi aros yno am sbel.



**Gwneud cwyn**
Medrwch siarad efo'r swyddog cwynion os nad ydych yn hapus. Ffoniwch **01352 702570** neu e-bostio **myview@flintshire.gov.uk**

Medrwch siarad efo'r Comisiynydd Plant Ffoniwch 01492 523 333, ewch at www.childcom.org.uk neu tecstio 80800 a chychwyn eich neges efo COM

Medrwch siarad â'r grŵp Codi Llais dros Blant mewn Gofal
Mae holl aelodau'r grŵp yn byw mewn gofal ac yn gwybod sut beth ydy o. Mi fedrwch ymuno â'n grŵp ni neu ofyn i ni sbïo i mewn i ryw bwnc i chi. I ddŵad i gysylltiad, ffoniwch 01352 702655 neu fynd at www.flintshire.gov.uk a chwilio am SCC.




11662 design-and-print 01352 704000